

A woman with blonde hair, wearing a black suit jacket over a white shirt, is posing against a bright yellow background. She is holding a bottle of wine in her left hand. The bottle has a label that reads "750 ml 12% ALCOHOL BY VOLUME LONELLING".

mwldan

Aberteifi / Cardigan

Beth Sydd Ymlaen What's On

Mehefin – Rhagfyr 2025
June – December 2025

Shwmae | Hello!

Annwyl gyfeillion,

Croesawn fisoedd yr haf gyda rhaglen ar ei newydd gwedd. Yn ogystal, rydym ar ben ein digon i fod yn lansio gwefan newydd sbon y Mwldan, diolch i'r bobl wych yn A Likely Story a Glorious Creative, yr ydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda nhw dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n anodd credu ei bod hi bellach yn 20 mlynedd ers i ni ddechrau fel canolfan cynhyrchu, gan greu perfformiadau a theithiau gan artistiaid anhygoel sydd wedi mynd ymlaen i deithio ledled y byd. Tua 1,300 o berfformiadau unigol yn ddiweddarach, mae cynrychiadau a aned yma yn y Mwldan, Aberteifi wedi cyfareddu cynulleidfaoedd o ddegau o filoedd mewn gwyliau a chanolfannau ar draws y byd. Eleni, rydym yn teithio gyda VRi, Catrin Finch ac Aoife Ní Bhriain, Kroke SATORU (prosiect arloesol rhwng Catrin Finch a Lee House) a Synergedd; prosiect newydd yn cynnwys Alaw, VRi a Hannah James. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am waith yr 20 mlynedd ddiwethaf trwy'r tudalennau cynrychiadau teithiol ar ein gwefan, yn ogystal â manylion am yr holl ffilmau, darllediadau a pherfformiadau byw diweddaraf rydym wedi bod yn eu rhoi at ei gilydd i chi eu mwynhau.

Hefyd, rydym wrthi'n brysur yn paratoui ar gyfer 6ed gŵyl Lleisiau Eraill Aberteifi, a gynhelir rhwng 30ain Hydref i 1af Tachwedd. Mae'r cynnig tocynnau cynnar o £40 yn dod i ben ar 30ain Mehefin, gyda'r pris yn codi i £65 ar 1af Gorffennaf, felly ewch ati i fachu eich bandiau arddwrn nawr ar gyfer penwythnos syfrdanol o gerddoriaeth, sgysiau a chysylltiadau yma ar garreg eich drws.

Edrychwn ymlaen at eich gweld cyn bo hir,

Dear friends,

We welcome in the summer months with a new look brochure. Plus we're more than excited to be launching our brand new Mwldan website, courtesy of the brilliant people at A Likely Story and Glorious Creative with whom we've been working hard over the past year.

It's hard to believe that it's now 20 years since we started as a producing venue, creating performances and tours by amazing artists that have gone on to tour all over the world. Some 1,300 individual performances later, productions born here in Mwldan, Aberteifi have delighted audiences of tens of thousands at festivals and venues across the globe. This year we are touring VRi, Catrin Finch and Aoife Ní Bhriain, Kroke, SATORU (a groundbreaking project between Catrin Finch and Lee House) and Synergedd; a new project featuring Alaw, VRi and Hannah James. You can find more information on those 20 years of work via the touring production pages on our website, as well as details of all the latest films, broadcasts and live performances we have been putting together for you to enjoy.

We're also busy gearing up for the 6th Other Voices Cardigan, which takes place from 30th October - 1st November. The advance-priced ticket offer of £40 ends on 30 June, with the price increasing to £65 on 1st July, so get your wristbands now for a stunning weekend of music, conversation and connection right here on your doorstep.

We look forward to seeing you very soon.



Dilwyn Davies,
Prif Weithredwr, Mwldan
Chief Executive, Mwldan

Cynnwys / Contents

- 03 Digwyddiadau Fyw / Live events
- 26 Darllediadau / Broadcasts
- 34 Sinema / Cinema
- 52 CFfTM / TMFS
- 54 Dosbarthiadau / Classes
- 57 Gwybodaeth / Information
- 60 Dyddiadur / Diary

Delwedd Clawr / Cover Image:
NT Live Inter Alia (15 As live) t/p 30

Digwyddiadau byw Live events

O theatr awyr agored yn y castell, i'r Lleisiau Eraill nesaf, mae gennym raglen wych o ddigwyddiadau byw ar gyfer pob oed dros y misoedd nesaf.

Gweler digwyddiadau unigol am fanylion tocynnau rhatach. Gweler mwldan.co.uk am fanylion pellach ac i archebu tocynnau.

From outdoor theatre at the castle, to the next Other Voices we have a great programme of live events for all ages over the coming months.

See individual events for concessionary price details and visit our website mwldan.co.uk for further details and to book.



**Lleisiau Eraill
Aberteifi / Other
Voices Cardigan 2025**
30 Hydref / October -
1 Tachwedd / November

Gweler tudalen 18 am ragor o wybodaeth | See page 18 for more information

★★★★★

'playful virtuosos ...brilliant'

SONGLINES MAGAZINE

Cynhyrchiad y Mwldan | A Mwldan Production

Catrin Finch & Aoife Ní Bhriain

Nos Sul 29 Mehefin

Sunday 29 June

7.30pm / £22

Mae Finch a Ní Bhriain yn creu deialog gerddorol swynol lle mae elfennau traddodiadol a chyfoes yn dod at ei gilydd mewn dathliad syfrdanol o gydweithrediad cerddorol. Yn y perfformiad hwn, bydd Catrin ac Aoife yn chwarae rhai caneuon newydd am y tro cyntaf i gynulleidfa Aberteifi.

Mae Catrin Finch wedi llunio gyrfa glasurol drawiadol ac wedi mentro i dir cerddorol newydd, yn fwyaf nodedig trwy ei chydweithrediau rhyngwladol gwobrwyedig gyda Seckou Keita a Cimarrón. Mae Aoife Ní Bhriain, sy'n haniu o Ddylun, yn un o ffdilwyr traddodiadol mwyaf blaenllaw Iwerddon sy'n feistrolgar ym maes cerddoriaeth glasurol a cherddoriaeth ei threfnadaeth draddodiadol Wyddelig.

Mae eu halbwm debut *Double You* wedi cyrraedd rhif un yn Siartiau Clasurol iTunes, a derbyniodd enwebiadau ar gyfer yr 'Albwm Gorau' yn 6ed Gwobrau Gwerin Radio 1 RTÉ, ac 'Albwm Gorau Ewrop' yng Ngwobrau Cerddoriaeth Songlines 2024.

Finch and Ní Bhriain create a spellbinding musical dialogue where traditional and contemporary elements converge in a breathtaking celebration of musical synergy. In this performance, Catrin and Aoife will be premiering some new tunes for the Cardigan audience.

Catrin Finch has built an impressive classical career and ventured into uncharted musical territory, most notably through her award-winning international collaborations with Seckou Keita and Cimarrón. Dublin native Aoife Ní Bhriain is one of Ireland's foremost traditional fiddle players who commands both the classical world and her Irish traditional heritage.

Their debut album *Double You* reached number one in the iTunes Classical Charts and received nominations for 'Best Album' in the 6th RTÉ Radio 1 Folk Awards and 'Best European Album' in the Songlines Music Awards 2024.



Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.

Idwyn Davies,
Prif Weithredwr, Mwldan
Chief Executive, Mwldan

GŴYL FAWR

ABERTEIFI 2025



Seremoni Cyhoeddi'r Wyl / Proclamation Ceremony

Castell Aberteifi / Cardigan Castle
Dydd Sadwrn 28 Mehefin
Saturday 28 June
3.00pm / Am ddim / Free

Sioe Criw CICA | Musical Show with CICA

Mwldan
Nos Fawrth 1 Gorffennaf
Nos Fercher 2 Gorffennaf
Tuesday 1 July
Wednesday 2 July
7.30pm / £8

Sioe gerdd yn cael ei pherfformio gan griw CICA (Cwmni Ieuencid Cylch Aberteifi). Bydd torf o blant a phobl ifanc y cylch yn ein diddanu gyda sioe wreiddiol arall - gyda sgript yn llawn hiwmor dyma gyfle unwaith eto i weld doniau lleol ar eu gorau.

A Welsh language musical performed by local youth group Criw CICA. This talented company of children and young people will entertain with an original musical - with a cast of up and coming stars this will no doubt be one of the week's highlights.



Talwrn y Beirdd

Castell Aberteifi / Cardigan Castle
Nos Wener 4 Gorffennaf
Friday 4 July
8.00pm / £8
Tocynnau ar y drws / tickets on the door

Cyfle i weld timau o feirdd lleol yn trin a thrafod geiriau er mwyn ceisio ennill tarian goffa y diwedd ar Brifardd Dic Jones. Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc hefyd yn ystod y noson.

An opportunity to listen to local teams of bards battle it out in word and verse with the aim of clinching the Dic Jones memorial shield. The Youth Award will also be presented during the evening.



Eisteddfod

Mwldan
Dydd Sadwrn 5 Gorffennaf
Saturday 5 July
11.00am / £7
Nos Sadwrn 5 Gorffennaf
Saturday 5 July
5.30pm / £9


Eleni eto cawn ddiwrnod llawn o gystadlu ar ddydd Sadwrn yr ŵyl yn y Mwldan. Bydd y diwrnod yn llawn dop o gystadlaethau offerynnol, canu a llefaru gyda Seremoni Cadeirio'r Bardd am 6yh cyn y prif gystadlaethau corawl. Ar ddiwedd y noson bydd y beirniaid yn dewis enillydd Côr yr ŵyl o blith enillwyr y categorïau corawl. Yn unol a thraddodiad yr ŵyl daw'r cystadlu i ben gyda chystadleuaeth Y Rhuban Glas i unawdwyr dros 25 oed.

This year's festival will include a jam packed day of competitions on the Saturday at Mwldan. Competitions will include instrumental, singing and recitation with the Charing Ceremony held at 6pm before the main choral competitions which will culminate in one overall winner to be declared Festival Choir later that evening. In line with tradition, the final competition will be the highly anticipated Blue Riband competition for soloists over 25 years old.



Dathliad o dalent cerddorol newydd o orllewin Cymru

A celebration of emerging musical talent from west Wales



MWYHAU AMPLIFY

Fflach Cymunedol – Mwldan – Community Music Wales yn cyflwyno / presents

Mwyhau - Amplify

Dydd Sadwrn 12 Gorffennaf
Saturday 12 July

6.00pm – 1am
£10

Dewin
FluX
Iestyn Gordon
Internet Fatigue

Jasmine Power
Lavant
Tap-Out
The Undercasts

Mae'r dathliad hwn o dalent gerddorol newydd o orllewin Cymru yn gwahodd artistiaid a bandiau o'n hardal leol i fynd wyneb yn wyneb â'i gilydd i ennill slot perfformio ar y Llwybr Cerdd yn Lleisiau Eraill Aberteifi ym mis Hydref 2025. Bydd yr enillwyr hefyd yn derbyn amser recordio yn Stiwdio Fflach Gymunedol a sesiwn datblygiad proffesiynol a ddarperir gan Gerdd Gymunedol Cymru.

This celebration of emerging musical talent from west Wales invites artists and bands from our local area to go head-to-head to win a performance slot on the Music Trail at Other Voices Cardigan in October 2025. The winners will also receive recording time at Stiwdio Fflach Cymunedol and a professional development session provided by Community Music Wales.

Yn dilyn Galwad Agored, bydd wyth artist/ band yn cael eu dewis, o unrhyw a phob genre cerddorol i berfformio set 20 munud yr un o flaen cynulleidfa fyw a phanel annibynnol o feirniaid a fydd yn dewis dau enillydd (un Gymraeg ac un Saesneg). Bydd yr enillwyr Iwclus yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y noson, ac yn ogystal â hynny i gloi'r noson bydd set DJ (TBA). Dewch i fwynhau noson wych sy'n cynnwys y gorau o dalentau lleol, a chefnogwch eich hoff fand!

Following an Open Call, eight selected artists/bands of any and all musical genres will each perform a 20-minute set in front of a live audience and an independent panel of judges who will choose two winners (one Welsh language, and one English language). The lucky winners will be announced at the end of the night, and the evening will be topped off with a DJ set (TBA). Come and enjoy a great night out that features the best of local talent, and support your favourite band!






Mae Mwldan a Chastell Aberteifi yn cyflwyno rhaglen o theatr awyr agored gan Illyria, y cyfan yng ngerddi syfrdanol Castell Aberteifi.

Mwldan and Cardigan Castle present a summer programme of open-air theatre from award-winning theatre company Illyria in the stunning grounds of Cardigan Castle.

Mae'r prefformiadau i gyd yn cymryd lle yng Nghastell Aberteifi. Gweler mwldan.co.uk am wybodaeth bwysig ynglŷn a'r digwyddiadau hwn.

These performances take place at Cardigan Castle. See mwldan.co.uk for essential information about these events.




Castell Aberteifi / Cardigan Castle

Illyria
HMS Pinafore
Nos Fawrth 5 Awst
Tuesday 5 August
7.00pm (Drysau / Doors 6.00pm)
£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Mae Josephine, merch y capten, mewn cariad â Ralph, morwr cyffredin. Ond mae ei thad yn mynnu ei bod hi'n priodi Syr Joseph Porter, Prif Arglwydd y Morlys - sydd eisoes wedi bod yn ei llygadu. Mae'r cariadon yn cael eu dal wrth iddyn nhw ddianc o'r llong ac mae Ralph wedi'i gloi yn wnswiwn y llong. A all y datgeliadau a wnaed gan Buttercup, y gwerthwr ar ochr y dociau, alluogi pawb o'r diwedd i briodi eu gwir gariadon? Yn llawn deialog slic ac alawon bachog, caiff yr opera gomig oesol hon ei pherfformio yn yr awyr agored gan gast o chwech ar set forol ysblennydd, gan ddefnyddio sgôr lawn Sullivan.

Josephine, the captain's daughter, is in love with Ralph, a common sailor. But her father insists that she marries Sir Joseph Porter, First Lord of the Admiralty – whose roving eye has already noticed her. The lovers are caught as they elope from the ship and Ralph is locked in the ship's dungeon. Can revelations made by Buttercup, the dockside vendor, finally enable everyone to marry their true hearts' loves? Full to the gunwales with sharp dialogue and catchy tunes, this timeless comic opera is performed outdoors by a cast of six on a spectacular nautical set, using Sullivan's full score.




Castell Aberteifi / Cardigan Castle

Illyria
Pride & Prejudice
Nos Fawrth 12 Awst
Tuesday 12 August
7.00pm (Drysau / Doors 6.00pm)
£18 (£16) £10 Plentyn / Children

"It is a truth universally acknowledged, that a single man in possession of a good fortune, must be in want of a wife." Yn sicr dyna farn Mrs Bennet, wrth iddi gynllwynio i ddod o hyd i wŷr addas ar gyfer ei phum merch. Diolch byth bod Lizzy, ei hail ferch, yn meddwl bod y Mr Darcy ddirmygus yn atgas! Neu ydy hi...? A all hi weld y tu hwnt i'w falchder - ac a allai oresgyn ei rhagfarn - i ystyried dyfodol posibl gyda'i gilydd? Yn dilyn saith tymor o'r addasiad disglair hwn pan werthwyd pob tocyn ar eigyfer, mae Illyria gwobrwyedig, yn dychwelyd i ddathlu pen-blwydd Jane Austen yn 250 oed mewn steil. Dewch â phicnic a mwynhewch hi ar ei gorau, yn fywiog, yn ddi-flewyn-ar-dafod, ac yn finio!

"It is a truth universally acknowledged, that a single man in possession of a good fortune, must be in want of a wife." Mrs Bennet certainly thinks so, contriving to find suitable husbands for her five daughters. Thank heavens Lizzy, her second daughter, finds disdainful Mr Darcy detestable! Or does she...? Can she see beyond his pride – and could he overcome her prejudice – to consider a possible future together? Following seven sell-out seasons of this sparkling adaptation, award-winning Illyria returns to celebrate Jane Austen's 250th birthday in style. Bring a picnic and enjoy her at her vibrant, forthright, bitchy best!



Castell Aberteifi / Cardigan Castle

Illyria
The Wind In The Willows
Nos Iau 21 Awst
Thursday 21 August
6.00pm (Drysau / Doors 5.00pm)
£18 (£16) £10 Plentyn / Children

Mae Mole yn dyheu am archwilio'r byd eang. Mae'r hen Badger sarrug yn mwynhau heddwch a thawelwch. Ac mae Rat yn hoffi picnics a chwarae o gwmpas mewn cychod. Mae eu bywydau delfrydol ar lannau'r Afon yn cael eu troi wyneb i waered pan mae Toad, sydd wedi'i gyfareddu gan ruthr injan a swŷn sgrechian y teiars yn llosgi, yn dilyn y diweddraf mewn cyfres hir o'i obsesiynau costus: car modur cyflym, coch. Mae Illyria, sydd wedi ennill lluo o wobrau, yn dathlu hanes oesol Kenneth Grahame am gyfeillgarwch, chwerthin, yr hiraeth am gartref a swyn antur. Dewch i'w mwynhau drwy'r haf ledled y DU lle mae'r stori wedi'i gosod: yn yr awyr agored ym Mhrydain.

Mole yearns to explore the wide world. Gruff old Badger enjoys peace and quiet. And Rat likes picnics and just messing about in boats. Their idyllic lives on the Riverbank are turned upside down when Toad, bewitched by the roar of an engine and the screech of burning tyres, pursues his latest in a long line of extravagant obsessions: a fast, red motor-car. Multiple award-winning Illyria celebrates Kenneth Grahame's timeless tale of friendship, laughter, the longing for home and the lure of adventure. Enjoy it all summer across the UK where the story is set: in the great British outdoors.

CRAFT Festival WALES

SEPT 5-7, 2025



Llun / Image: Cambrian Woolgan / by Leia Morrison

Castell Aberteifi / Cardigan Castle Gŵyl Grefft Cymru / Craft Festival Wales 5 - 7 Medi / September

Mae'n bleser gennym gyhoeddi Galwad am Geisiadau Gŵyl Grefft Cymru 2025. Mae Digwyddiad y Flwyddyn 2024 (Cymuned) Caru Ceredigion yn dychwelyd i Gastell Aberteifi ym mis Medi yn dilyn canmlaeth frwd gan gynulleidfa oedd a gwneuthurwyr fel ei gilydd.

Mae Gŵyl Grefft Cymru yn ddathliad cydweithredol o gael ei gefnogi gan sefydliadau celfyddydol blaenllaw o Gymru a thu hwnt. Bydd Gŵyl Grefft Cymru yn croesawu dros 100 o wneuthurwyr eithriadol yng Nghastell Aberteifi gyda The Capital of Craft LIVE, Out of the Woods, arddangosiadau, arddangosfeydd, gweithdai, gweithgareddau i blant, cerddoriaeth fyw, theatr ac adrodd straeon gyda digwyddiadau lloeren yn cael eu cynnal ar draws y Dref.

We are delighted to announce Craft Festival Wales 2025. Caru Ceredigion's Event of the Year 2024 (Community) returns to Cardigan Castle in September following rapturous praise from audiences and makers alike.

Craft Festival Wales is a collaborative celebration of making supported by leading arts organisations from Wales and beyond. Craft Festival Wales will host 100 exceptional makers at Cardigan Castle featuring The Capital of Craft LIVE, Out of the Woods, demonstrations, exhibitions, workshops, children's activities, live music, sculpture trail, theatre & storytelling with satellite events hosted across the Town.



Jon Boden and the Remnant Kings Nos Sul 21 Medi Sunday 21 September 7.30pm / £24

Yn fyw, mae baledi parlwr Boden mewn arddull Tom Waits, a phŵer-pop Napoleon, yn cael eu perfformio ochr yn ochr ag ôl-gatalog pymtheg mlynedd y band o ganeuon ac alawon traddodiadol a gwreiddiol, gan gyfuno dealltwriaeth ddofn o gerddoriaeth draddodiadol gyda dawn gerddorol a bywiogrwydd theatraidd, ac yn cynnwys talentau o fri Sam Sweeney (Bellowhead), Rob Harbron (Leveret), Ben Nicholls (Seth Lakeman Band), Sally Hawkins (Bellowhead) a llais a gitâr pedal-dur y canwr-gyfansoddwr cwlt M.G. Boulter.

Live, Boden's Waitsian parlour ballads and Napoleonic power-pop are performed alongside the band's fifteen-year back-catalogue of traditional and original songs and tunes, combining a deep understanding of traditional music with musical audacity and theatrical brio, and featuring the enormous talents of Sam Sweeney (Bellowhead), Rob Harbron (Leveret), Ben Nicholls (Seth Lakeman Band), Sally Hawkins (Bellowhead) and the vocals and pedal-steel guitar of cult singer-songwriter M.G. Boulter.



Glen Johnson Wyneb Newydddiol Stryd Fawr Aberteifi / The Changing Face of Cardigan High Street Dydd Sadwrn 4 Hydref Saturday 4 October 2.00pm / £7

Dyma i chi gyfle i weld prif stryd gyfarwydd Aberteifi mewn golau tra gwahanol, wrth i Glen Johnson, hanesydd lleol, rannu casgliad o ffotograffau yn dangos sut mae'r siopau a'r adeiladau cyfarwydd wedi newid dros y blynyddoedd. Dysgwch am hen adeilad Brawdlys Aberteifi, y tân gwaethaf erioed yn Aberteifi, cysylltiadau simsan Aberteifi â'r Beatles, a llawer mwy!

Nid yw llawer o'r delweddau erioed wedi'u gweld yn gyhoeddus o'r blaen, a bydd sylwebaeth wybodus a ffraeth Glen yn cyd-fynd â nhw. Unwaith y byddwch wedi gweld y lluniau hyn, fyddwch chi byth yn edrych ar Stryd Fawr Aberteifi yn union yr un ffordd eto!

A chance to see the familiar main street of Cardigan in a very different light, as Glen Johnson, local historian, shares a collection of photographs showing how the familiar shops and buildings have changed over the years. Find out about Cardigan's old Assize Court building, Cardigan's worst ever fire, Cardigan's tentative connections with the Beatles, and much more!

Many of the images have never been publicly seen before, and they will be accompanied throughout by Glen's knowledgeable and witty commentary. Once you've seen this, you'll never look at Cardigan High Street in quite the same way again!



Martin Decker: Dad

Nos Fawrth 7 Hydref
Tuesday 7 October
7.30pm / £15 (£14)

Gan Keiron Self a Kevin Jones

Beth sy'n gwneud tad gwych? Mae Martin yn meddwl ei fod yn gwybod ac yn benderfynol o rannu'wybodaeth. Mae'r daith ddoniol-dywyll, lawn teimlad hon yn archwilio'r tadau wnaeth siapio Martin- o Darth Vader i'w arwr yn ei blentyndod, Indiana Jones, o'r Tad Cŵl i Dad y Dawnsiwr.

Gan gynnwys ail greu ffilmiau yn fyw, dynwarediadau llai na pherffaith o Harrison Ford a gwahoddedigion annisgwyl ar y sgrin, mae'r sioe hon yn siarad â phob tad sydd erioed wedi ystyried a yw'n ddigon. Ond i Martin mae'n ymddangos bod llawer mwy yn y fantol - ai achub ei fab, neu ei achub ei hunsydd dan sylw?

Canllaw oed 14+

Rhybuddion ynghylch materion allai beri gofid yn cynnwys themâu alcoholiaeth, cam-drin domestig a marwolaeth.

By Keiron Self and Kevin Jones

What makes a great dad? Martin thinks he might know and is determined to share it. This darkly funny, heartfelt journey explores the father figures that shaped Martin - from Darth Vader to childhood hero Indiana Jones, from Cool Dad to Dad Dancer.

With live movie reenactments, less-than-perfect Harrison Ford impressions, and surprise guests on screen, this show speaks to every dad who's ever wondered if they're enough. For Martin, though, the stakes feel even higher—is this mission about saving his son, or himself?

Age guidance 14+

Trigger warnings. Contains themes of alcoholism, domestic abuse and death.

Digwyddiadau Byw | Live Events



A Mwldan Production | Cynhyrchiad y Mwldan

SATORU Catrin Finch | Lee House

cerddoriaeth . meddwl . sain . emosiwn
music . mind . sound . emotion

Nos Fercher 8 Hydref
Wednesday 8 October
7.30pm / £18 (£16)


Camwch i mewn i fyd lle mae sain yn troi'n deimlad, ac mae cerddoriaeth yn meiddio holi'r cwestiynau na all geiriau eu gofyn. Mae'r profiad trochol hwn yn asio telyn arbrofol gyda thriniaeth electronig, a'r gair llafar i'ch tywys drwy daith bersonol ddwys, sonig. Mae pob nodyn, pob ymadrodd yn edau sy'n eich tynnu trwy ddigelwch, emosiwn a datguddiad. Disgwylwch gael eich cyffroi, eich cynhyrfu, a'ch trawsnewid.

Step into a realm where sound becomes sensation and music asks the questions words cannot. This immersive performance blends experimental harp with electronic manipulation and spoken word to guide you through a deeply personal, sonic journey. Each note, each phrase is a thread pulling you through mystery, emotion, and revelation. Expect to be stirred, unsettled, and transformed.

Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.

June - December | Mehefin - Rhagfyr 2025





Black Rat Dai Cula: Prince of The Valleys

Nos Wener 17 Hydref
Friday 17 October
7.30pm / £15 (£13)

Ar ôl gwyltio “Who Do You Think You Are?”, mae Count Dracula yn argyhoeddedig bod ganddo waed brenhinol - diolch i gysylltiad amheus rhwng Vlad the Impaler a Thywysog Cymru. Felly, mae'n archebu coffin oddi ar Temu, yn archebu Airbnb iddo'i hun, ac yn cychwyn am y Goedwig Ddu... dim ond glanio yn y Coed Duon yng Nghymoedd De Cymru! Ar y dechrau, mae'r bobl leol yn meddwl ei fod yn ecsentrig mewn clogyn. Ond pan fydd pobl yn dechrau diflannu'n ddirgel ac mae rheoli plâu yn cael ei alw i ymchwilio i broblem ystumod sydyn, mae'r dref yn dechrau meddwl tybed a yw eu hymwelydd newydd od yn fwy na dim ond twrist coll....

Comedi newydd gan Richard Tunley.

After binge-watching Who Do You Think You Are?, Count Dracula becomes convinced he's got royal blood—thanks to a dubious link between Vlad the Impaler and the Prince of Wales. So, he orders a flat-pack coffin off Temu, books himself an Airbnb, and sets off for the Black Forest... only to land in Blackwood in the South Wales Valleys! At first, the locals think he's just another eccentric in a cape. But when people start mysteriously disappearing and pest control is called to investigate a sudden bat problem, the town begins to wonder if their odd new visitor is more than just a lost tourist...

A new comedy by Richard Tunley.

Canllaw oed/Age guidance 11+



Emyr Phillips Cardi Bach (U)

Dydd Sadwrn 18 Hydref
Saturday 18 October
2.00pm / £8.40 (£7.70) (£5.90)

Bydd antur y Cardi Bach nesaf yn cynnwys ffilm newydd yn ogystal a rhai o'r ffimiau sy wedi eu gweld yn barod. Ffilm gan Gary Evans o Cilgerran yw'r ffilm newydd. Clywodd Gary am y tren gan ei famgu a'i fam gan fod y rheilffordd yn rhan bwysig o'u bywydau. Wedi astudio Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth penderfynnodd ddilyn ei ddiddordeb cynnar a chreu ffilm am y rheilffordd leol.

Cysylltodd a Cymdeithas Rheilffordd Cardi Bach gan ddilyn ei teithiau a chyfweld pobl cynhenid yr ardal a mewnydwy'r a chafodd ei synnu gan yr atgofion o'r cariad oedd gan y bobl o'r lein. Bydd y ffilm hefyd yn darganfod agweddau sy'n cuddio mewn manau dirgel allan o sylw ond sy'n rhan bwysig o'r stori.

This latest Cardi Bach adventure will include a new film as well as some of those which have been seen before. The new film is by Gary Evans from Cilgerran. Gary heard about the train from his grandmother and his mother as the railway was an important part of their lives. After taking a degree in Film and Television at Aberystwyth University Gary decided to follow his early interest and to make a film about his local railway.

Gary consulted members of Cardi Bach Railway Society, following their station tours and interviewing locals and people who had recently moved into the area who were amazed to find the memories the people held of the little train. The film will also discover aspects which are usually hidden from view but which are part of the story.



Justin Moorehouse: The Greatest Performance Of My Life

Nos Wener 24 Hydref
Friday 24 October
8.00pm / £17.50 (£7.50 Difyflog / Unwaged)

Paratowch am brofiad bythgofiadwy wrth i Justin ddychwelyd gyda *The Greatest Performance of My Life*.

Ar ôl taith lwyddiannus a hir gyda'r sioe *Stretch and Think* yn 2022 (gallwch wyltio hon yn llawn ar YouTube), mae e nôl yn teithio eto gyda'r sioe newydd hon.

Mae'r stori'n cwmpasu pynciau sy'n amrywio o bantomeimiau i freuddwydion, sut i ymddwyn mewn ysbytai, mân siarad, sylweddoli mai fersiwn ogleddol o Columbo yw ei fam, a sut y gwnaeth bod yn blentyn gydag ymatebion bach slic a chlyfar ei achub rhag bywyd o gael un grasfa ar ôl y llall. Yn anad dim, dyma'r Justin y mae'n rhaid i chi ddod i'w ddisgwyl. Mae'n ddoniol ac yn ddiddorol, ac efallai bod 'na fymryn bach i gynhesu'r enaid hefyd.

Get ready for an unforgettable experience as Justin returns with *The Greatest Performance of My Life*.

After a successful and extensively extended tour of his 2022 show *Stretch and Think* (which you can catch in full on YouTube), he's back on the road with this new show.

The story covers subjects ranging from pantomimes to dreams, how to behave in hospitals, small talk, realising his Mum is a northern version of Columbo, and how being a smart-mouthed kid saved him from a life of continually being beaten up. Above all else, it's the Justin you have to come to expect. It's funny and interesting, and perhaps there's a little bit that warms the soul, too.

Canllaw oed/Age guidance 14+

ABERTEIFI / CARDIGAN
30.10.25 – 01.11.25

other
voices



Lleisiau
eraill

PRIS TOCYN YMLAEN LLAW £40
YN GORFFEN AR 30AIN MEHEFIN,
£65 O'R IAF GORFFENNAF
ADVANCE PURCHASE TICKET PRICE
£40 ENDS 30TH JUNE £65 FROM 1ST JULY

BABY BRAVE / BRUNA GARCIA /
CURTISY / DAITHÍ / DANIELLE LEWIS /
DAVID MURPHY / ELLIE O'NEILL /
GOD KNOWS / GWEN SION /
JOSHUA BURNSIDE / KIDSMOKE /
MAKESHIFT ART BAR / MOLLY PALMER /
MORN / QBANAA / ROIS / SALAMAY /
SEAMUS & CAOIMHE UÍ FHLATHARTA /
SIULA / STILL BLUE / TAFF RAPIDS /
TALULAH / TESSIO / THE FACTORY SET /
TOKOMOLOLO / TRAMP / WRKHOUSE /

...A LLAWER MWY I'W CHYHOEDDI!
...AND MANY MORE TO BE ANNOUNCED!

LEIN YP EGLWYS Y SANTES FAIR A CELBRAN YN DOD YN FUANI! /
ST MARY'S CHURCH AND CLEBRAN LINE UP COMING SOON!

ARCHEBWCH NAWR / BOOK NOW: OTHERVOICES.IE
TANYSGRIFIWCH I'N RHESTR BOSTIO /
SUBSCRIBE TO OUR MAILING LIST: MWLDAN.CO.UK

Nerina Pallot

Nos Wener 7 Tachwedd Friday 7 November

7.30pm / £22.50

Mae'r gantores-gyfansoddwraig a enwebwyd am Wobr Mercury a'r Brits, Nerina Pallot, yn dod â'i cherddoriaeth aml-genre a llawn enaid i Mwldan, Aberteifi ym mis Tachwedd hwn fel rhan o'i thaith 'All Roads Lead To'.

Gyda gyrfa sy'n rhychwantu dros ddau ddegawd, mae hi wedi rhyddhau cyfres o albymau wedi'u creffio'n gain. Mae ei cherddoriaeth, sy'n plethu elfennau o bop, gwerin ac indie, wedi swyno cynulleidfaoedd ledled y byd, gyda chaneuon fel *Everybody's Gone to War* a *Sophia* yn amlygu ei dawn i adrodd straeon a chreu alawon cofiadwy. Fel artist hynod annibynnol, mae Pallot yn parhau i wthio ffiniau creadigol, gan greu gwaith llawn emosiwn a chyfoeth sonig sy'n ei chadarnhau fel un o drysorau cerddorol mwyaf tanbriesidig y DU.

Mercury Prize and Brit Nominated singer-songwriter Nerina Pallot brings her jazz influenced, genre defying and soulfully driven sound to Mwldan, Aberteifi this November as part of her 'All Roads Lead To' tour.

With a career spanning over two decades, she has released a string of beautifully crafted albums. Her music, which weaves elements of pop, folk, and indie, has captivated audiences worldwide, with hits like *Everybody's Gone to War* and *Sophia* showcasing her knack for storytelling and melody. A fiercely independent artist, Pallot continues to push creative boundaries, delivering emotionally rich and sonically adventurous work that cements her as one of the UK's most underrated musical gems.



mwldan

Mae hon yn Gynhyrchiad Taith Mwldan - gweler mwldan.co.uk/tours am ddyddiadau llawn y daith / This is a Mwldan Touring Production - see mwldan.co.uk/tours for full tour dates.

A Mwldan Production | Cynhyrchiad y Mwldan

Synergedd:
Alaw | VRi | Hannah James
Nos Fawrth 11 Tachwedd
Tuesday 11 November
7.30pm / £17 (£15)

Daw chwe dawn gerddorol aruthrol o Gymru a Lloegr ynghyd ar gyfer cydweithrediad unigryw ac arbennig a fydd yn mynd â'u hathrylith unigol i'r lefel nesaf gyda'i gilydd.

Mae ALAW, y "Welsh supergroup" (Songlines) yn dathlu cerddoriaeth draddodiadol Cymru gydag angerdd heintus, gan gyfuno cyfansoddi caneuon pwerus gydag alawon gwreiddiol.

Mae VRi wedi ennill yr Albwm Orau yng Ngwobrau Gwerin Cymru ddwywaith, ac yn asio prydferthwch tannau clasurol â hedoniaeth sesiwn dafarn, y cyfan wedi'u rhwymo â harmonïau lleisiol pwerus.

Mae Hannah James yn gerddor, yn gantores ac yn ddawnsraig gyfareddol, arloesol a ddisgrifiwyd fel "a true original" (The Guardian). A hithau'n enwog fel un o'r acordionyddion gorau ar y sîn werin ym Mhrydain, mae ei dawn gerddorol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r traddodiad.

Six extraordinary musical talents from Wales and England join together for a unique and special collaboration that will take their individual genius to the next collective level.

ALAW, a "Welsh supergroup" (Songlines) celebrate the traditional music of Wales with an infectious passion, combining powerful songwriting with original tunes.

VRi have twice won Best Album at the Wales Folk Awards, and combine the beauty of classical strings with the hedonism of a pub session, all bound with powerful vocal harmonies.

Hannah James is a spellbindingly innovative musician, singer and dancer described as "a true original" (The Guardian). Renowned as one of the best accordionists on the British folk scene, her musicianship extends far beyond the tradition.





Mid Wales Opera Trouble in Tahiti

Nos Fercher 19 Tachwedd
Wednesday 19 November
7.30pm / £18 (£5 o dan 21 / under 21s)

Mae opera un act Bernstein yn ddadansoddiad cain o'r Freuddwyd Americanaidd wych, trwy lygaid Sam a Dinah yn nhŷ pastel a phriodas ffens polion gwyn yr 1950au. Mae triawd 'scat' jazz yn rhoi sylwebaeth wrth i'r cwpl osgoi realiti eu perthynas. I Sam mae'n golygu ei gyfeillion yn y gampfa a'i waith, ac i Dinah ei therapydd a dihangfa ogoneddus Hollywood – a oes bywyd ar ôl yn eu 'priodas berffaith'?

Wedi'i pherfformio yn nhrefniant siambr Yannotta ar gyfer saith offerynwyr, gyda chast o bump dan arweiniad Cyfarwyddwr Cerdd OCC o'r piano, mae'r opera'n llenwi hanner cyntaf y noson, gyda'r ail hanner yn dathlu opera a theatr gerddorol Americanaidd, gyda thema Y Freuddwyd Americanaidd, yn cynnwys yr holl berfformwyr.

Bernstein's one act opera is an exquisite dissection of the great American Dream, through the eyes of Sam and Dinah in their 1950's pastel house and white picket fence marriage. A jazz 'scat' trio provides a running commentary as the couple avoid the realities of their relationship. For Sam it's gym buddies and work, for Dinah trips to her therapist and the glorious technicolour escapism of Hollywood - can their 'dream marriage' survive?

Performed in Yannotta's chamber arrangement for seven instrumentalists, with a cast of five led by MWO's Music Director from the piano, the opera forms the first half of the evening, with the second half cabaret concert The American Dream, celebrating American opera and musical theatre and featuring all the performers.



Natasha Watts Beautiful Soul

Nos Iau 20 Tachwedd
Thursday 20 November
7.30pm / £25

Bydd band byw yn ymuno â Natasha ar daith drwy ganeuon syfrdanol gwreiddiol a chyfarwydd, yn y noson wych hon o gerddoriaeth sy'n gynnwys caneuon gan Gladys Knight, Aretha Franklin, Barbara Streisand, Whitney Houston a llawer mwy.

Mae Natasha Watts yn gantores-gyfansoddwraig Brydeinig enwog sy'n adnabyddus am ei llais deinameg a'i hegni llawn enaid. Gyda chefnidir wedi'i wreiddio mewn cerddoriaeth soul, jazz, ac R&B, mae Watts wedi swyno cynulleidfaoedd gyda'i phresenoldeb llwyfan pwerus a'i hadrodd straeon dilys.

A journey of stunning original and familiar songs, Natasha will be joined by a live band for this fantastic night of music, including songs by Gladys Knight, Aretha Franklin, Barbara Streisand, Whitney Houston and many more.

Natasha Watts is a celebrated British singer-songwriter known for her dynamic voice and soulful energy. With a background rooted in soul, jazz, and R&B, Watts has captivated audiences with her powerful stage presence and authentic storytelling.

Hyrrwyddir gan / Promoted by Natasha Watts



Theatr Bara Caws Llanast!

Nos Wener 21 Tachwedd
Friday 21 November
7.30pm / £15

2 fam, 2 dad, 2 fab x wisgi, tiwlips a ffôn = llanast!

Mae dau bâr o rieni yn cwrdd i drafod ymddygiad eu plant anystywallt - mae plentyn un ohonynt wedi brifo plentyn y llall mewn parc.

Mae'r cyfarfod yn cychwyn yn o gall, a'r pedwar yn ddiagon bonheddig, ond wrth i amser fynd yn ei flaen mae ymddygiad y pedwar yn mynd yn fwyfwy plentynnaidd, a diolch i botel o Benderyn, daw'r cyfarfyddiad i ben mewn anhrefn llwyr!

2 mothers, 2 fathers, 2 sons x whisky, tulips + a mobile phone = carnage!

What happens when two sets of parents meet up to deal with the unruly behaviour of their sons? A calm and rational debate between grown-ups about the need to teach kids how to behave properly? Or a hysterical hour of name-calling, tantrums and tears? In this 'comedy of manners, without the manners', the civilized veneer soon slips, and carnage ensues!

**Perfformir yn yr iaith Gymraeg /
A Welsh language performance**

Canllaw oed/Age guidance 14+



Lighthouse Theatre Company Casablanca

Nos Fawrth 2 Rhagfyr
Tuesday 2 December
7.30pm / £15 (£14)

Lighthouse Theatre CIO & Pontardawe Arts Centre
yn cyflwyno... / Lighthouse Theatre CIO and
Pontardawe Arts Centre present...

Mae'r byd yn rhyfela, ond mae dyn hunan-wneud yn cysgodi ei hun a chamweddau eraill rhag difrod rhyfel mewn bar ym Morocco lle mae llywodraeth Ffrainc Vichy yn rheoli. Mae ffoaduriaid o bob rhan o Ewrop yn dod i Affrica am daith ac iachawdwriaeth. Pan fydd un ohonyn nhw'n cerdded i mewn i'w far...mae ei fyd i gyd yn cael ei droi wyneb yn wyneb â'r dref...am beth fydddech chi'n aberthu popeth?... Mae cwmni 'Playhouse of the Air' yn dychwelyd i ddarlledu'r stori glasur hon am gariad yng Ngogledd Affrica, sydd wedi'i rhwygo gan ryfel, o flaen cynulleidfa theatr fyw - ynghyd â cherddoriaeth fyw, profiad cyn y sioe ac artist 'foley' yn creu'r effeithiau sain ar y llwyfan.

The world is at war, but a self-made man shields himself and other misfits from the ravages of war in a bar in Morocco where the Vichy French government hold sway. Refugees from all over Europe come to Africa for passage and salvation. When one of them walks into his bar...his whole world is turned upside down...for what would you sacrifice everything?... The Playhouse of the Air company returns to broadcast this classic tale of love in war-torn North Africa in front of a live theatre audience - complete with live music, a pre-show experience and a foley artist creating the sound effects on stage.



Ysgol Penparc: Sioe Nadolig

Dydd Iau 4 Rhagfyr
Thursday 4 December
1.30pm + 6.30pm / £6

Mae'n bleser gennym groesawu plant Ysgol Gymunedol Penparc yn ôl atom unwaith eto gyda'u sioe Nadolig newydd o gerddoriaeth a gân ar gyfer 2025! Dewch i ymuno â nhw ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn.

We're delighted to welcome the children of Ysgol Gymunedol Penparc back to us once again with their new Christmas show of music and song for 2025! Come and join them for this special event.

Beauty and the Beast

Cardigan Theatre Pantomime: Beauty & The Beast

Dydd Sul 21 Rhagfyr Sunday 21 December	2.00pm
Dydd Llun 22 Rhagfyr Monday 22 December	2.00pm & 7.00pm
Dydd Mawrth 23 Rhagfyr Tuesday 23 December	2.00pm
Dydd Mercher 24 Rhagfyr Wednesday 24 December	2.00pm
Dydd Sadwrn 27 Rhagfyr Saturday 27 December	2.00pm
Dydd Sul 28 Rhagfyr Sunday 28 December	2.00pm
Dydd Llun 29 Rhagfyr Monday 29 December	2.00pm & 7.00pm

Ymunwch â Cardigan Theatre y Nadolig hwn am stori sydd mor hen ag amser. Camwch i fyd hudolus o chwerthin, hud a helynt gyda *Beauty and the Beast!* Y Nadolig hwn, ymunwch â Belle, y Beast, a chast o gymeriadau hoffus am antur hudolus yn llawn gwisgoedd ysblennydd, caneuon cyffrous, a hwyl a sbri y bydd y teulu cyfan yn dwlu arnynt. A fydd Belle yn torri melltrith y Beast? A fydd y ddewines yn rhwystro ei chynlluniau? Ac a fydd Gavin byth yn dod o hyd i ferch ei freuddwydion?

Yn llawn hwyl y panto, jôcs, a digonedd o gyfleoedd i'r gynulleidfa gymryd rhan, *Beauty and the Beast* yw'r trit Nadoligaidd gorau oll. P'un a ydych chi'n 5 neu'n 95 oed, mae rhywbeth i bawb yn y stori dwymgalon hon am gariad, dewrder a harddwch mewnol.

Felly dewch i fwynhau ein panto y tymor hwn a pheidwch â cholli allan - archebwch eich tocynnau nawr a byddwch yn rhan o'r hud!

Join Cardigan Theatre this Christmas for a tale as old as time. Step into an enchanted world of laughter, magic, and mayhem with *Beauty and the Beast!* This Christmas, join Belle, the Beast, and a whole cast of quirky characters for a spellbinding adventure full of dazzling costumes, toe-tapping songs, and hilarious hijinks the whole family will love. Will Belle break the Beast's curse? Will the enchantress foil her plans? And will Gavin ever find the girl of his dreams?

Packed with panto fun, outrageous jokes, and audience participation galore, *Beauty and the Beast* is the ultimate festive treat. Whether you're 5 or 95, there's something for everyone in this heartwarming tale of love, bravery, and inner beauty.

So be our guest this panto season and don't miss out—book your tickets now and be part of the magic!

Hyrwyddir gan /Promoted by Cardigan Theatre

Darllediadau Broadcasts

Darganfyddwch rai o gynyrchiadau theatr, opera, bale a cherddorol gorau'r byd gan gynhyrchwyr mwyaf blaenllaw'r byd. O NT Live i'r Bale a Opera Brenhinol, mae gennym gynnwys gwefreiddiol gan rai o'r enwau mwyaf, yma ar y sgrin yn Aberteifi.

Dyma amserau bras sy'n cynnwys seibiannau (oni nodir y wahannol). Gall tystysgrifiau newid. Edrychwn ar ein gwefan mwldan.co.uk am ddiweddariadau a rhagor o fanylion.

Discover some of the worlds finest theatre, opera, ballet and musical productions from the worlds leading companies. From NT Live to Royal Ballet & Opera, we have exhilarating content from some of the biggest names right here on screen in Cardigan.

Running times are approximate and include intervals (unless otherwise stated). Certificates are subject to change. Please check our website mwldan.co.uk for updates and further details.

NT Live: Inter Alia **15 AS LIVE**

Gweler tudalen 30 am ragor o wybodaeth |
See page 30 for more information

★★★★★

'An absolute knock-out.
Raw, emotional and
deeply unsettling'

TELEGRAPH

National
Theatre
Live

NT Live
A Streetcar Named Desire

15

July / Gorffennaf 15 - 7.00

Awst / August 23 - 2.00

Awst / August 28 - 7.00

£16 (£15)

Gillian Anderson (*Sex Education*), Vanessa Kirby (*The Crown*), a Ben Foster (*Lone Survivor*) sy'n arwain y cast yng nghampwaith bythol Tennessee Williams, sy'n dod yn ôl i sinemâu. Wrth i fyd bregus Blanche chwalu, mae'n troi at ei chwaer Stella am gysur – ond mae ei dirywiad yn dod â hi wyneb yn wyneb â Stanley Kowalski sy'n greulon ac anfaddeugar.

Gan y cyfarwyddwr gweledigaethol Benedict Andrews, cafodd y cynhyrchiad clodwiw hwn ei ffilmio'n fyw ym ystod rhediad a werthodd bob tocy'n yn Theatr Young Vic yn 2014.

